# Cynllun Gweithredu Llwybr Rhywogaethau Estron Prydain Fawr: Anifeiliaid Anwes

## Cefndir i'r cynllun gweithredu

Mae lleihau'r risg a achosir gan lwybrau cyflwyno a lledaenu yn ffordd allweddol o fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol (INNS). Mae Strategaeth INNS Prydain Fawr yn galw am ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Llwybr (PAPiau) sydd hefyd yn ofyniad dan ddeddfwriaeth ddomestig.

Mae'r Cynllun Gweithredu Llwybr hwn yn un o gyfres o gynlluniau sydd â'r nod o fynd i'r afael â llwybrau cyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron ym Mhrydain Fawr. Mae'r cynllun yn amlinellu'r polisi a'r dulliau gweithredu cyffredinol yn ogystal â thargedau i'w cyflawni gan y diwydiant anifeiliaid anwes, y llywodraeth a pherchnogion anifeiliaid anwes mewn perthynas â'r mater hwn.

## Cwmpas

Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu anifeiliaid estron o bob amgylchedd (y tir, dŵr croyw a'r môr) sy'n cael eu cadw fel anifeiliaid anwes, sydd yn – neu a allai ddod yn – oresgynnol, gyda'r eithriadau canlynol:

- Cŵn, cathod a cheffylau
- Anifeiliaid sy'n cael eu cadw heblaw at ddibenion cwmnïaeth e.e. adar ysglyfaethus neu ffuredau a ddefnyddir wrth hela, cwningod ar gyfer cig neu ffwr, adar dŵr ac adar hela wrth hela at ddibenion hamdden, mathau addurniadol o gerpynnod, neu abwyd byw.

Mae wedi'i anelu at y rhai sy'n ymwneud â'r sector anifeiliaid anwes yn ogystal â pherchnogion anifeiliaid anwes. Cwmpas daearyddol y PAP yw Prydain Fawr.

Paratowyd y cynllun hwn gan weithgor (Gweithgor PAP Anifeiliaid Anwes Prydain Fawr) sy'n adrodd i Fwrdd Rhaglen Rhywogaethau Estron y DU (gweler Atodiad 1 am aelodaeth).

## Rhesymeg

Mae dros 2,000 o rywogaethau estron wedi'u sefydlu ym Mhrydain Fawr, ac mae tua 200 ohonynt yn achosi effeithiau negyddol ac yn cael eu hystyried yn rhywogaethau estron goresgynnol.

Mae anifeiliaid yn cyfrif am oddeutu 60% o'r rhywogaethau goresgynnol ym Mhrydain Fawr ac, yn ôl cyfran, maent yn llawer mwy tebygol o achosi effeithiau negyddol na phlanhigion. Sefydlodd rhai o'r rhain, fel y fadfall alpaidd, y paracît gwddf modrwy a'r paracît torwyn, gan eu bod wedi'u rhyddhau neu ddianc o leoliad domestig. Gallai pump o'r 30 o rywogaethau

sganio’r gorwel uchaf sy'n fygythiad i Brydain Fawr fod wedi’u cyflwyno fel hyn hefyd: y racŵn-gi, y racŵn, y paracît alecsandraidd, y cimwch afon brith a gwiwer resog Siberia.  Felly, mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â'r llwybr anifeiliaid anwes drwy ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu llwybr.

Mae'r amrywiaeth o wahanol rywogaethau anifeiliaid anwes wedi cynyddu yn y DU ers y 1950au[i], gyda mwy o aelwydydd bellach yn meddu ar ystod ehangach o anifeiliaid na'r anifeiliaid anwes mwy traddodiadol sy’n cael eu cadw fel cŵn, cathod a chwningod. Yn 2023, roedd 3% o aelwydydd yn cadw adar dan do, 1.6% yn cadw crwban neu grwban y môr, 1.3% yn cadw nadroedd, tra bod gan 21% a 13% o aelwydydd danc pysgod dan do a phwll pysgod awyr agored yn y drefn honno[ii].

Nid yw llawer o'r rhain yn frodorol i'r DU, ond os cânt eu cadw'n iawn, nid ydynt yn peri bygythiad. Gall problemau godi pan fydd rhai o'r anifeiliaid hyn yn dianc neu'n cael eu rhyddhau'n fwriadol. Mewn arolwg gan GBNNSS, cyfaddefodd 2% o bobl y bydden nhw’n rhyddhau anifail anwes na allent ofalu amdano mwyach i'r gwyllt, sy’n destun pryder[iii].

Ceir gafael ar anifeiliaid anwes o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys siopau anifeiliaid anwes lleol, teulu a ffrindiau, bridwyr, siopau anifeiliaid dŵr, sefydliadau hobi arbenigol a'r rhyngrwyd. Gall llawer o'r ffynonellau hyn helpu i addysgu perchnogion newydd am berchnogaeth gyfrifol (er enghraifft, hyrwyddo'r neges 'dim rhyddhau').

Mae yna god ymarfer anifeiliaid anwes yn y DU[iv] ac Ewrop[v], yn ogystal â deddfwriaeth fel Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (mewn perthynas â Chymru a Lloegr), sy'n ei gwneud yn drosedd caniatáu i rywogaethau anifeiliaid rhestredig neu rai nad ydynt fel arfer yn byw yn – neu nad ydynt yn ymwelwyr rheolaidd â – Phrydain Fawr, ddianc neu eu rhyddhau i’r gwyllt. Yn yr Alban, mae gwaharddiad cyffredinol ar ryddhau anifail, caniatáu iddo ddianc o gaethiwed, neu fel arall achosi iddo fod y tu allan i’w gynefin brodorol.  Mae'r Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yn rhestru 30 o rywogaethau anifeiliaid sydd wedi'u gwahardd rhag mewnforio, gwerthu, cadw, bridio a rhyddhau ac ati ym Mhrydain Fawr. Mae cyfyngiadau ychwanegol ar fewnforio a chadw mathau penodol o bysgod a chimychiaid dŵr croyw estron dan Ddeddf Mewnforio Pysgod Byw (Cymru a Lloegr) 1980 a Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Cadw a Rhyddhau a Gofynion Hysbysu) (Yr Alban) 2012. Mae Gogledd Iwerddon y tu allan i gwmpas y PAP hwn, ond nodir bod gan Ogledd Iwerddon wahanol restrau o rywogaethau rheoleiddiedig.

Nid yw deddfwriaeth ar ei phen ei hun yn ddigonol i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â chyflwyno neu ledaenu INNS.   Mae'n gofyn am gydweithio a chydweithredu gan bawb dan sylw; mae pob sector yn rhan o'r ateb ac yn chwarae rhan bwysig wrth atal INNS. Mae'r cynllun hwn yn nodi camau i helpu i leihau'r risg a achosir gan rywogaethau estron sy'n gysylltiedig â'r fasnach anifeiliaid anwes.

## Nodau ac amcanion

Nod cyffredinol y PAP yw diogelu'r amgylchedd trwy gyfres o fesurau i leihau'r risg o gyflwyno, lledaenu ac effaith anifeiliaid estron sy'n cael eu cadw fel anifeiliaid anwes sydd yn – neu a allai ddod yn – oresgynnol yn y gwyllt.

Yr amcanion penodol yw:

1. Sicrhau nad yw anifeiliaid sydd wedi'u rhestru fel rhywogaethau o bryder arbennig[vi] yn cael eu cadw, eu gwerthu, eu cyfnewid, eu bridio ac ati drwy bob llwybr, gan gynnwys ar-lein.

2. Codi ymwybyddiaeth ymhlith y fasnach anifeiliaid anwes a pherchnogion anifeiliaid anwes o’r gyfraith ynghylch cadw, gwerthu, cyfnewid, cludo, bridio, rhyddhau, a dihangiad anifeiliaid estron.

3. Helpu i nodi rhywogaethau risg uchel yn y fasnach anifeiliaid anwes sy’n gofyn am arweiniad a / neu sylw penodol a darparu canllaw ar y rhain.

4. Codi ymwybyddiaeth ymhlith perchnogion anifeiliaid anwes o'r angen i:
   - wybod beth maen nhw'n ei brynu a sicrhau y gallant gadw anifeiliaid anwes ar hyd eu hoes.
   - sicrhau nad yw anifeiliaid, deunyddiau gwastraff, wyau, a bwyd anifeiliaid anwes byw byth yn cael eu rhyddhau ac na chaniateir iddynt ddianc
   - cadw at arferion cadw cyfrifol eraill, gan gynnwys micro-sglodynnu ac ysbaddu anifeiliaid, lle bo hynny'n briodol.

5. Darparu canllaw i berchnogion anifeiliaid anwes ar yr hyn i'w wneud ag anifeiliaid anwes na allant ofalu amdanynt mwyach ac annog perchnogion i roi gwybod am anifeiliaid anwes sydd wedi dianc a’u dal, yn ogystal ag adrodd yn ehangach ar anifeiliaid estron sydd wedi’u canfod yn y gwyllt.

## Camau gweithredu

*Mae pob cam gweithredu’n gysylltiedig ag un neu fwy o amcanion y PAP, fel y nodir mewn cromfachau sgwâr ar ôl pob cam.*

*Cam Gweithredu 1*
Arolygiaeth NNS, gan weithio gydag asiantaethau eraill fel y bo'n briodol, i geisio canfod rhywogaethau gwaharddedig sy’n cael eu gwerthu (gan gynnwys ar-lein), ymateb i adroddiadau gan ddiwydiant ac eraill, a datblygu camau gorfodi priodol. [Amcan 1].

*Cam Gweithredu 2*
Llywodraethau Prydain Fawr a'r sector anifeiliaid anwes i gydweithio i godi ymwybyddiaeth o fewn y sector am rywogaethau rhestredig a chyfrifoldebau perthnasol. [Amcanion 1 a 2].

*Cam Gweithredu 3*
Grŵp Cydgysylltu Hyfforddiant GBNNSS i weithio gyda'r sector anifeiliaid anwes a darparwyr hyfforddiant i nodi hyfforddiant allweddol ar gyfer mewnforwyr, manwerthwyr, cyfanwerthwyr a bridwyr. [Amcan 2].

*Cam Gweithredu 4*
GBNNSS i sefydlu is-grŵp sy’n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector anifeiliaid anwes, sefydliadau cadw allweddol a chyrff y llywodraeth [Amcanion 3 a 5], i:

- nodi rhywogaethau risg uchel yn y fasnach anifeiliaid anwes sydd â'r potensial i ddod yn oresgynnol
- datblygu canllaw i berchnogion anifeiliaid anwes ar y rhywogaethau risg uchel hyn
- datblygu canllaw ar beth i'w wneud ag anifeiliaid anwes na all pobl ofalu amdanynt mwyach, a
- datblygu canllaw i berchnogion anifeiliaid anwes ar sut a ble i roi gwybod am anifeiliaid anwes coll, yn enwedig rhywogaethau risg uchel.

*Cam Gweithredu 5*
Llywodraethau Prydain Fawr a rhanddeiliaid i gynnig rhagor o rywogaethau i'w rhestru fel rhywogaethau o bryder arbennig, fel y nodir yn y broses restru[vii]. Bydd yr holl gynigion yn cael eu blaenoriaethu a'u cyflwyno ar gyfer asesiad risg ac ymgynghoriad cyn i weinidogion eu hystyried yn derfynol. [Amcan 3].

*Cam Gweithredu 6*
GBNNSS a Llywodraethau Prydain Fawr i gynnal a hyrwyddo ymgyrch codi ymwybyddiaeth addas a'i diweddaru yn ôl yr angen [Amcan 4]. Dylai hyn bwysleisio:

- na ddylai aelodau'r cyhoedd fyth ryddhau anifeiliaid anwes yn fwriadol,
- bod rhyddhau anifeiliaid anwes yn aml yn greulon, ac
- yr angen i gadw anifeiliaid anwes estron yn gyfrifol, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, y defnydd o drigfannau diogel, micro-sglodion a ysbaddu.

*Cam Gweithredu 7*
Y sector anifeiliaid anwes i annog eu haelodau i helpu i godi ymwybyddiaeth o anifeiliaid estron goresgynnol, gan gynnwys drwy hyrwyddo'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth a ddatblygwyd o dan Gam Gweithredu 6, a chadw anifeiliaid anwes anfrodorol yn gyfrifol. [Amcan 4].

*Cam Gweithredu 8*
Llywodraethau Prydain Fawr a'r sector anifeiliaid anwes i hyrwyddo’r angen i roi gwybod am ac ymateb yn gyflym i rywogaethau anifeiliaid anwes a welir yn y gwyllt ar ôl iddynt ddianc neu gael eu rhyddhau. [Amcan 5].

**Monitro a diweddaru**

Bydd Gweithgor PAP Anifeiliaid Anwes Prydain Fawr yn cael ei ail-ymgynnull o leiaf bob blwyddyn i asesu cynnydd wrth gyflawni'r camau gweithredu.

Ar gyfer asesu cynnydd cyffredinol o ran cyflawni’r PAP bydd y grŵp yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol gan gynnwys y canlynol:

- Newidiadau yn lefel ymwybyddiaeth y rhai sy'n ymwneud â'r sector anifeiliaid anwes fel yr asesir gan arolwg agweddau'r cyhoedd.
- Nifer y busnesau sy'n gwerthu rhywogaethau gwaharddedig fel y'i mesurir gan yr Arolygiaeth Rhywogaethau Estron (a ffynonellau eraill lle bo hynny'n berthnasol).

Yn y pen draw, dylai'r PAP helpu i leihau nifer yr anifeiliaid estron goresgynnol newydd sy'n sefydlu ac yn lledaenu yn y gwyllt. Bydd dangosyddion lefel uchel, fel dangosydd B6 JNCC[viii] a dangosydd 'atal' Defra[ix] yn cael eu hystyried i geisio asesu hyn; fodd bynnag, gall fod yn anodd canfod effaith benodol y PAP ar y lefel hon.

**Atodiad 1:** Aelodau'r Gweithgor.

Cynrychiolir y sefydliadau canlynol ar y gweithgor PAP Anifeiliaid Anwes:

Llywodraeth Cymru (Cadeirydd)
GBNNSS (Ysgrifennydd)
Cyngor y Sector Anifeiliaid Anwes
The Pet Charity
Polisi NNS Defra
Asiantaeth yr Amgylchedd
Natural England
Cyfoeth Naturiol Cymru
NatureScot
OATA
Grŵp Cynghori Hysbysebu Anifeiliaid Anwes
REPTA
RSPCA
Llywodraeth yr Alban
SPCA yr Alban
SEPA
Rhwydwaith Defnyddwyr Cynaliadwy

Aelodau cyfatebol:
DAERA – Gogledd Iwerddon

---

Nodiadau Terfynol

[i] https://www.rspca.org.uk/documents/1494939/7712578/The+Exotic+Pet-demic%3A+UK%27s+ticking+timebomb+exposed.pdf/075754a7-fa68-f9bf-66b4-ccb0d559db28?t=1631617196174

[ii] https://www.ukpetfood.org/information-centre/statistics/uk-pet-population.html

[iii] https://www.nonnativespecies.org/assets/Document-repository/2018_Survey_of_Attitudes_Knowledge_and_Behaviour_in_Relation_to_Non-native_Species-7.pdf

[iv] https://ornamentalfish.org/wp-content/uploads/Pet-Code-of-Practice.pdf

[v] https://easin.jrc.ec.europa.eu/easin/Document/EuropeanCodeofConduct/Publication_Code_of_conduct_pets_IAS_2016_web.pdf

[vi] https://www.nonnativespecies.org/legislation/species-of-special-concern/

[vii] https://www.nonnativespecies.org/legislation/species-of-special-concern/#Listing-process

[viii] https://jncc.gov.uk/our-work/ukbi-b6-invasive-species/

[ix] https://oifdata.defra.gov.uk/themes/biosecurity-chemical-and-noise/H1/